# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Richard A Dew, R Meirion Jones, Bob Parry OBE FRAgS, P S Rogers ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a Bryan Owen |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2019.

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 APWYNTIO STAFF**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Swyddogion ar y strwythur Uwch Reolwyr.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Y bydd diweddariad ar ganlyniad y broses mewn perthynas â'r strwythur Uwch Reolwyr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Panel Penodiadau a gynhelir ar 25 Mehefin, 2019;**
- **Cytunwyd ymhellach y byddai dwy swydd wag yn yr ail-strwythuriad yn cael eu hysbysebu'n fewnol i'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan yr ail-strwythurol yn y lle cyntaf, a hynny'n unol â Pholisi'r Cyngor. Oni cheir unrhyw geisiadau llwyddiannus, bydd unrhyw swyddi sydd ar ôl yn cael eu hysbysebu'n allanol.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**